

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL TALIADAU UNIONGYRCHOL I FFERMWYR (PARHAD DEDDFWRIAETHOL)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn pennu bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu at ddiben sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cafodd y Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) (y "Bil") ei gyflwyno gan George Eustice AS yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9fed Ionawr 2020. Mae'r Bil i'w weld yma: <https://services.parliament.uk/Bills/2019-20/directpaymentstofarmerslegislativecontinuity.html>

Amcan(ion) Polisi

3. Mae Erthygl 137 y Cytundeb Ymadael yn darparu nad yw Rheoliad (UE) Rhif 1307/2013 (sy'n rheoli Taliadau Uniongyrchol i ffermwyr) yn berthnasol i'r DU ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 ar wahân i Erthygl 13 (yr eithrio o gymorth gwladol). Er bod Erthygl 137 yn cyfeirio'n benodol at Reoliad 1307/2013, bwriedir hefyd gynnwys deddfwriaegth sy'n gysylltiedig â'r defnydd o'r Rheoliad hwnnw megis yr Deddfau Gwehrtredu a Dirprwyedig yr UE.
4. Heb y ddeddfwriaeth sylfaenol newydd, ni all yr Ysgrifennydd Gwladol na'r Gweinyddiaethau Datganoledig barhau i wneud Taliadau Uniongyrchol i ffermwyr ar gyfer blwyddyn hawlio 2020.
5. Bydd y Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer parhau i dalu Taliadau Uniongyrchol i ffermwyr drwy sicrhau y bydd y cynllun yn parhau ym mhob rhan o'r DU ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Trwy gynnwys deddfwriaeth yr UE sy'n rheoli Taliadau Uniongyrchol i ffermwyr yn y ddeddf ddomestig, mae'r Bil yn cynnig y dull deddfwriaethol sydd ei angen i alluogi'r cynllun Taliadau Uniongyrchol i barhau ar gyfer blwyddyn hawlio 2020, ac i'r taliadau o dan y cynllun hwnnw gael ei wneud i ffermwyr.

Crynodeb o'r Bil

6. Caiff y Bil ei noddi gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA).
7. Bydd y Bil yn gwneud deddfwriaeth yr UE ar Daliadau Uniongyrchol, fel y bydd ar 31 Rhagfyr 2020, yn rhan o gyfraith ddomestig y DU. Mae hefyd yn cynnwys pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth o fewn cyfnod penodol er mwyn gwneud cywiriadau i'r corff hwnnw o gyfraith yr UE i sicrhau y caiff ei weithredu unwaith y bydd y DU wedi gadael yr UE. Mae ynddo hefyd

bêr yn ôl disgrisiwn a fydd yn golygu y bydd modd gwneud diwygiadau, yn ystod 2020, i'r gyfraith ddomestig honno os, er enghraifft y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu y Gweinyddiaethau Datganoledig am atgynhyrchu unrhyw ddiwygiadau a gaiff eu gwneud i'r gyfraith Ewropeaidd gyfatebol. Hefyd, mae'r Bil yn diwygio deddfwriaeth Taliadau Uniongyrchol yr UE i alluogi cynnydd i derfyn uchaf ariannol y Taliadau Uniongyrchol ar gyfer blwyddyn 2020 y cynllun i ystyried canfyddiadau Adolygiad Bew sy'n gysylltiedig â dyrannu cyllid i roi cymorth i ffermydd yn y DU.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

8. Mae angen cydsyniad ar gyfer darpariaethau canlynol y Bil gan eu bod yn gwneud darpariaeth ar faterion wedi'u datganoli. Pwrpas y Bil yw sicrhau bod y cynllun taliadau uniongyrchol i ffermwyr yn parhau yn ystod blwyddyn hawlio 2020. Mae Amaethyddiaeth, a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn faterion wedi'u datganoli.

Cymal 1: Ymgorffori deddfwriaeth yr UE sy'n rheoli cynlluniau taliadau uniongyrchol y PAC

9. Diben Cymal 1 yw ymgorffori deddfwriaeth yr UE ar gynlluniau taliadau uniongyrchol PAC o fewn cyfraith ddomestig.
10. O dan is-adran (1), bydd deddfwriaeth yr UE ar gynlluniau taliadau uniongyrchol PAC ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 yn dod yn rhan o gyfraith ddomestig ar ddiwrnod ymadael.
11. Mae Is-adran (2) yn egluro mai y corff cyfreithiol y cyfeirir ato yn is-adran (1) yw'r ddeddfwriaeth fel y mae yn cael effaith o fewn cyfraith yr UE yn union wedi'r dyddiad ymadael o ran blwyddyn hawlio 2020, ar wahân i unrhyw ddiwygiadau sy'n cael eu gwneud cyn hynny sy'n gysylltiedig â gweithredu y Cytundeb Ymadael â'r UE.
12. Mae is-adran (3) yn rhestru'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei chynnwys yn neddfwriaeth y DU o dan is-adran (1). Mae is-adran (3)(d) yn nodi y bydd Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 o Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 17 Rhagfyr 2013 ar ariannu, rheoli a monitro y PAC a'r Deddfau Gweithredu a Dirprwyedig sydd wedi eu gwneud oddi tano yn llunio rhan o'r corff cyfreithiol sy'n cael ei ddomestigeiddio o dan y Bil dim ond i'r graddau y maent yn berthnasol i'r cynllun taliadau uniongyrchol ar gyfer 2020.
13. Mae is-adran (4) yn nodi mai y deddfwriaeth yr UE sy'n cael ei chynnwys yw y feriswn Saesneg, ond y gellid defnyddio fersiynau mewn ieithoedd eraill at ddibenion dehongli.
14. Mae is-adran (5) yn eithrio'r darpariaethau yn yr adran hon rhag cael unrhyw effaith ar faterion sy'n gysylltiedig â hawliad y flwyddyn flaenorol (blwyddyn 2019) neu blynnyddoedd hawlio cynharach.

15. Mae Is-adran (6) yn sicrhau parhad rhwng Ionawr 2020 a gweddill y flwyddyn hawlio yn 2020 twy drin deddfwriaeth yr UE sydd wedi'i chynnwys fel rhan o gyfraith ddomestig o'r 1 Ionawr 2020. O ran blwyddyn hawlio 2020, bydd ffermwyr yn cael eu llywodraethu gan gyfraith yr UE ar gyfer Ionawr 2020, a chan gyfraith ddomestig wedi hynny, ond mae'r ddarpariaeth hon yn golgyu yr ystyrir y bydd y cyfnod ar gyfer cydymffurfio o dan gynllun 2020 yn dechrau o ddechrau y flwyddyn hawlio ar 1 Ionawr 2020.

16. Mae is-adran (7) yn diffinio'r derminoleg a ddefnyddir o dan y cymal hwn.

Cymal 2: Dehongli a statws

17. Mae Cymal 2 yn pennu'r rheolau ar gyfer dehongli cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n rheoli cynlluniau talidau uniongyrchol PAC yn y llysoedd domestig ac yn gwneud darpariaeth am statws y gyfraith honno. Mae'r cymal hwn yn berthnasol i'r darpariaethau perthnasol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018") gydag addasiadau ar gyfer pwrpas y Bil hwn.

18. Mae is-adran (1) yn defnyddio'r gyfraith o fewn Deddf 2018 sy'n llywodraethu'r dehongliad o gyfraith yr UE a ddargedwir (wedi'i amlinellu yn adran 6 Deddf 2018) at ddibenion y Bil hwn o ran cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei chynnwys yn y gyfraith ddomestig gan Gymal 1(1).

19. Mae is-adran (2) yn cyfeirio at adran 6 o Ddeddf 2018 ond gydag addasiadau i rai datganiadau yn yr adran honno. Yr addasiadau a dddefnyddiwyd yw'r rhai sydd wedi eu hamlinellu yn is-adran (5) a (6).

20. Mae is-adran (3) yn pennu statws cyfraith yr UE a ddargedwir at ddibenion y Bil hwn. Mae'n gymwys i adran 7(2) a (3) o, a pharagraffau penodol yn Atodlen 8, i Ddeddf 2018 ond gydag addasiadau at ddibenion y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chynnwys o dan gymal 1(1) y Bil hwn. Mae Adran 7(2) a (3) o Ddeddf 2018 yn cyfyngu ar y ffordd y caiff cyfraith yr UE a ddargedwir ei diwygio gan ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Mae paragraffau 3-8 o Atodlen 8 o Ddeddf 2018 yn pennu sut y gall y pwerau presennol sy'n gysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth weithredu ar gyfraith yr UE a ddargedwir ac mae paragraffau 10-12 o Atodlen 8 y Ddeddf honno yn delio gyda sut y byddai pŵer yn y dyfodol yn cael ei weithredu ar gyfraith yr UE a ddargedwir.

21. Mae is-adran (4) yn pennu mai y newidiadau a grybwyllwyd yn is-adran (3) yw y rhai hynny a restrwyd yn y tabl yn is-adran (5).

22. Mae is-adran (5) yn rhestru nifer o addasiadau i gymalau a ddefnyddir o fewn Deddf 2018. Felly mae'r darpariaethau hyn i gael eu darllen fel rhai sy'n eithrio'r geiriau yn y golofn ar chwith y tabl ac yn hytrach eu disodli gyda'r geiriau yn y golofn ar dde y tabl.

23. Mae is-adran (6) yn darparu, at ddibenion is-adran (1) y cymal hwn, bod y diffiniadau a ddefnyddir yn adran 6(7) o Ddeddf 2018 yn cael eu haddasu i'w defnyddio at ddibenion y Bil hwn.
24. Mae is-adran (7) yn darparu, wrth ddehongli is-ddeddfwriaeth sy'n gyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i chynnwys gan gymal 1(1) y Bil hwn a chyfraith yr UE a ddargedwir o dan adran 6 Deddf 2018, y caiff adran 6 o Ddeddf 2018 ei defnyddio gydag addasiadau wedi'u gwneud o dan yr adran hon ond dim ond cyn belled ag y mae'n berthnasol i gynlluniau taliadau uniongyrchol PAC.
25. Mae is-adran (8) yn diffinio statws y ddeddfwriaeth a restrir yng Nghymal 1 y Bil hwn at ddibenion Deddf Hawliau Dynol 1998.
26. Mae is-adran (9) yn darparu, bod rhai telerau o fewn is-adran (8) i gael eu dehongli fel y cânt eu diffinio yn Neddf hawliau Dynol 1998.
27. Mae is-adran (10) yn diffinio y derminoleg a ddefnyddir o dan y cymal hwn.
28. Mae is-adran (11) yn sicrhau y daw darpariaethau nad ydynt mewn grym ar hyn o bryd ac unrhyw ddiwygiadau sy'n cael eu gwneud gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 i rym ar yr un pryd ag y daw yr adran hon i rym.

Cymal 3: Rheoliadau mewn cysylltiad â chadw deddfwriaeth yr UE o dan adran 1

29. Mae Cymal 3 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y newidiadau gweithredol i sicrhau bod y gyfraith yn gweithio yn iawn ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud hynny ledled y DU ond dim ond gyda chydysyniad y Gweinyddiaethau Datganoledig. Caiff y pŵer i greu rheoliadau ei roi i Weinyddiaethau Datganoledig hefyd. Mae pŵer hefyd i wneud diwygiadau yn ystod 2020 os y caiff y gyfraith gyfatebol yn Ewrop ei diwygio a bod y DU neu'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn dymuno gwneud y diwygiad hwn hefyd. Mae'r pwerau hyn yn cyfateb â'r pwerau a amlinellir yn adran 8 ac 11 Deddf 2018 gydag addasiadau. Mae pŵer hefyd i DAERA i'w galluogi i barhau i symud tuag at werth cyson i uned o hawliad y taliadau.
30. Mae is-adran (1) yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud is-ddeddfwriaeth i gywiro unrhyw ddiffygion neu fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n llywodraethu cynlluniau taliadau uniongyrchol PAC sy'n codi o ymadael â'r UE, neu i barhau i ddatblygu unrhyw newidiadau sy'n cael eu gwneud i gynllun taliadau uniongyrchol PAC ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020 gan yr UE.
31. Mae is-adran (2) yn rhoi dyletswydd ar yr yr Ysgrifennydd Gwladol i gael cydysyniad gan y Gweinyddiaethau Datganoledig cyn gwneud rheoliadau ledled y DU.

32. Mae is-adran (3) yn rhoi pŵer i'r awdurdodau datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon i wneud rheoliadau i gywiro unrhyw ddiffygion neu fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n rheoli cynlluniau taliadau uniongyrchol PAC sy'n codi o ymadael â'r UE, neu i gadw i fyny ag unrhyw newidiadau eraill sy'n cael eu gwneud i gynllun taliadau uniongyrchol PAC ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 gan yr UE.
33. Mae is-adarn (4) yn gwneud darpariaeth benodol yn gysylltiedig â Gogledd Iwerddon i ganiatáu i DAERA barhau i symud tuag at werth unffurf i uned.
34. Mae is-adran (5) yn egluro y mathau o ddiffygion sy'n codi wedi diwrnod ymadael y gellid eu cywiro drwy ddefnyddio y pwerau yn is-adrannau (1)(a)(ii) a 3(a)(ii), Mae'n cyfateb â rhai o'r darpariaethau cyfatebol yn Neddf 2018.
35. Mae is-adran (6) yn pennu bod adrannau 8(5) i (7), ac eithrio is-adran 7(e), o Ddeddf 2018 yn gymwys mewn perthynas â rheoliadau a wnaed o dan y pwerau yn is-adrannau (1) a (3) ac yn esbonio sut y dylid darllen yr adrannau hynny o Ddeddf 2018.
- Mae Adran 8(5) o Ddeddf 2018 yn darparu bod is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y pŵer yn yr adran hon yn gallu gwneud unrhyw beth y mae Deddf Seneddol yn gallu ei wneud i ddelio â diffygion. Mae'r pŵer yn amodol ar y cyfyngiadau a nodir yn Adran 8(7) o Ddeddf 2018.
 - Mae Adran 8(6) o Ddeddf 2018 yn darparu ar gyfer yr hyn y mae'r is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y pŵer hwn yn gallu'i wneud, ond nid ar gyfer pob amgylchiad. Er enghraifft, gall drosglwyddo swyddogaethau awdurdodau'r UE i awdurdodau cyhoeddus y DU. Gellir defnyddio'r pŵer i ddiddymu, diwygio neu amnewid rhannau o'r gyfraith a gedwir. Mae gan y pŵer ddibenion eraill fydd yn angenrheidiol i gywiro diffygion.
 - Mae Adran 8(7) o Ddeddf 2018 yn nodi na cheir defnyddio rheoliadau i osod neu gynyddu trethi neu ffioedd, gwneud darpariaeth ôl-weithredol, creu trosedd berthnasol, sefydlu awdurdod cyhoeddus, diwygio Deddf Hawliau Dynol 1998 neu is-ddeddfwriaeth a wnaed trwyddi na diwygio Deddfau datganoli (ac eithrio mewn ffyrdd penodol a chyfyngedig).
36. Mae is-adran (7) yn esbonio y gallai'r darpariaethau a wneir gan reoliadau yn y cymal hwn fod yn gymwys i faterion sy'n codi ynghylch cynlluniau taliadau uniongyrchol y PAC ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 yn gyfan. Bydd hyn yn sicrhau y gall darpariaethau ymdrin â materion sy'n codi ym mis Ionawr 2020 pan fyddwn yn dal i fod o dan gyfraith yr UE.
37. Mae is-adran (8) yn amddiffyniad pwysig ac yn ei gwneud yn glir bod y pwerau'n rhai dros dro ac y dônt i ben ar ôl 31 Rhagfyr 2020. Nid yw hyn yn effeithio ar barhad y rheoliadau a wneir cyn y dyddiad hwnnw felly, er enghraifft, bydd unrhyw daliadau i ffermwyr sydd heb eu talu fel rhan o flwyddyn cynllun 2020 yn gallu cael eu talu ar ôl 31 Rhagfyr 2020.
38. Mae is-adran (9) yn pennu bod y pwerau i wneud rheoliadau yn is-adrannau (1) neu (3) yn cynnwys y gallu i wneud darpariaeth wahanol at

ddibenion gwahanol. Mae'n pennu hefyd bod y pwerau i wneud rheoliadau yn is-adrannau (1) neu (3) yn cynnwys pwerau i wneud newidiadau canlyniadol i'r rheoliadau, gan gynnwys y pŵer i ailddatgan unrhyw gyfraith yr UE sydd wedi'i chadw sy'n llywodraethu cynllun taliadau uniongyrchol y PAC, er mwyn eu gwneud yn gliriach.

39. Mae is-adran (10) yn diffinio'r derminoleg a ddefnyddir yn y cymal hwn.

Cymal 4: Cyhoeddi a rheolau tystiolaeth

40. Mae Cymal 4 yn darparu ar gyfer cyhoeddi'n ddomestig reoliadau penodol yr UE sy'n ymdrin â Thaliadau Uniongyrchol cyn y dyddiad ymadael. Ceir darpariaeth ynddo ynghylch rheolau tystiolaeth.

41. Mae is-adran (1) yn eithrio'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, a'r Deddfau Dirprwyedig a Gweithredu cysylltiedig, rhag y gofyn i gyhoeddi a osodir yn Neddf 2018.

42. Mae Is-adran (2) yn rhoi dyletswydd ar Argraffwyr y Frenhines i gyhoeddi rheoliadau penodedig yr UE a restrir yng nghymal 1 fel yr ymddangosant yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, cyn y dyddiad ymadael.

43. Mae is-adran (3) yn croesgyfeirio'r rheoliadau a restrir yn is-adran (1) ac is-baragraffau (i) i (v) o adran 1(3)(d).

44. Mae is-adran (4) yn eithrio rhag ei gyhoeddi unrhyw beth sy'n cael ei ddiddymu cyn y dyddiad ymadael ac unrhyw newidiadau a wneir ar ôl yr amser hwnnw.

45. Mae is-adran (5) yn pennu bod deddfwriaeth berthnasol yr UE a gedwir o dan gymal 1(1) yn "fater perthnasol" at ddibenion paragraff 4 o Atodlen 5 o Ddeddf 2018. Mae paragraff 4 o Atodlen 5 yn bŵer i wneud darpariaeth ynghylch cydnabod heb dystiolaeth a derbynoldeb hynny. Bernir bod materion y gellir eu cadarnhau heb dystiolaeth yn faterion sydd eisoes yn hysbys i'r Llys ac nad oes angen felly i'r Llys eu 'profi'. Er enghraifft, mae Cytuniadau'r UE wedi'u cadarnhau heb dystiolaeth. Mae paragraff 4 yn darparu bod Gweinidog y Goron yn cael gwneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer cadarnhau mater perthnasol heb dystiolaeth, ac ar gyfer derbyn mewn trafodion cyfreithiol dystiolaeth o fater perthnasol ac o offerynnau a dogfennau a gyhoeddwyd gan neu sydd o dan ofal endid o'r UE, hynny er mwyn sicrhau bod rheolau tystiolaeth yn gallu cael eu rhoi yn eu lle i adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol newydd ar ôl ymadael.

Cymal 5: Pŵer i gynyddu terfynau uchaf'r taliadau uniongyrchol ar gyfer 2020

46. Mae Cymal 5 yn diwygio'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol a gedwir er mwyn i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl ystyried Adolygiad Bew, gael cynyddu terfynau uchaf Taliadau Uniongyrchol cenedlaethol y DU a net ar

gyfer 2020. Mae'n diwygio hefyd y pwerau sydd eisoes yn bod i wneud rheoliadau yn y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol (yn erthyglau 6(3) a 7(3)) er mwyn ehangu eu cwrpas fel bod terfynau uchaf cenedlaethol a net yn gallu cael eu cynyddu i ystyried y penderfyniad hwn. Mae hyn yn golygu os bydd taliadau uniongyrchol codi'n uwch na'r terfyn cenedlaethol a net uchaf ar gyfer 2020 o ganlyniad i benderfyniad gan y Llywodraeth yn dilyn Adolygiad Bew, y gellir defnyddio'r pwerau hyn i gynyddu'r terfynau hynny i sicrhau na eir drostynt ac y gellir gwneud taliadau o fewn y fframwaith deddfwriaethol.

47. Mae is-adran (1) yn cyflwyno'r diwygiadau i'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol.

48. Mae is-adran (2) yn diwygio Erthygl 6(3) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol fel bod y rheoliadau a wneir o dan y pwerau a ddarperir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn y paragraff hwnnw i newid terfyn cenedlaethol uchaf 2020 yn ystyried y penderfyniad a wnaed yn unol â'r Erthygl 7A newydd, y'i hesbonnir isod. Mae terfyn uchaf cenedlaethol y DU yn cynnwys cyfanswm gwerth yr holl hawliau talu sydd wedi'u dyrannu, yr holl gronfeydd cenedlaethol a rhanbarthol wrth gefn a'r holl derfynau ariannol uchaf sydd wedi'u cyfrifo ar gyfer cynlluniau taliadau uniongyrchol unigol. Bydd angen caniatâd pob DA ar gyfer rheoliadau a wneir yn unol â phenderfyniadau sy'n ymwneud â therfyn uchaf cenedlaethol 2020.

49. Mae is-adran (3) yn diwygio Erthygl 7(3) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol fel bod y rheoliadau a wneir o dan y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn y paragraff hwnnw i newid terfyn uchaf net 2020 yn ystyried y penderfyniad a wnaed yn unol â'r Erthygl 7A newydd, y'i hesbonnir isod. Mae'r terfyn uchaf net yn codi'r cyfyngiadau ar werth y Taliadau Uniongyrchol y gellir eu gwneud yn y DU ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Bydd angen caniatâd pob DA ar gyfer rheoliadau a wneir yn unol â phenderfyniadau sy'n ymwneud â therfyn uchaf net 2020.

50. Mae is-adran (4) yn mewnosod Erthygl 7A yn y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol a gedwir. Mae'r erthygl hon, ar ôl ystyried Adolygiad Bew, yn darparu'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol allu penderfynu cynyddu uchafswm y taliadau uniongyrchol y gellid fel arall eu rhoi ym mlwyddyn hawlio 2020. Is-adran (1) yr erthygl newydd sy'n darparu'r pŵer. Mae is-adran (2) yn nodi beth yw Adolygiad Bew.

51. Mae is-adran 5 Cymal 5 yn diwygio paragraffau 5 o Erthygl 22 o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, fel bod unrhyw gynnydd yn y terfynau uchaf cenedlaethol neu net sy'n digwydd yn sgil arfer pwerau'r Erthygl 7A newydd yn arwain at gynnydd cyfatebol yng ngwerth yr hawliau talu.

Cymal 6: darpariaeth ganlyniadol a throsiannol

52. Mae is-adran (1) yn darparu pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r awdurdod cenedlaethol perthnasol i wneud rheoliadau sydd yn eu barn nhw yn briodol o ganlyniad i'r Bil hwn.

53. Mae is-adran (2) yn esbonio y gallai'r ddarpariaeth ganlyniadol honno gynnwys diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.
54. Mae is-adran (3) yn rhoi'r darpariaethau canlyniadol yn Atodlen 1 y Bil hwn ar waith.
55. Mae is-adran (3) yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol neu awdurdod cenedlaethol perthnasol wneud darpariaethau trosiannol, dros dro neu arbed trwy reoliadau.
56. Mae is-adran (5) yn darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael 'caniatâd gofynnol' i wneud rheoliadau o dan y Cymal hwn. Yna diffinnir 'caniatâd gofynnol' yn is-adran (6).
57. Ma is-adran (6) yn esbonio beth mae "caniatâd gofynnol" yn ei olygu, sef caniatâd Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a DAERA.
58. Mae is-adran (7) yn diffinio "awdurdod cenedlaethol perthnasol". Mae is-adran 7(b) yn darparu mai'r "awdurdod cenedlaethol perthnasol" ar gyfer rheoliadau sy'n gymwys yn unig i Gymru, neu sy'n ymwneud yn unig â Chymru yw Gweinidogion Cymru.

Cymal 7: Rheoliadau

59. Mae Cymal 7 yn rhoi effaith gyfreithiol i Atodlen 2.

Cymal 8: Dehongli

60. Mae Cymal 8 yn diffinio rhai termau a ddefnyddir yn y Bil.

Cymal 9: Cwmpas, cychwyn a theitl byr

61. Mae is-adran (1) yn darparu bod y Bil yn ymestyn i awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
62. Mae is-adran (2) yn nodi y daw cymal 5 i rym ar y dyddiad ymadael.
63. Mae is-adran (3) yn nodi y bydd darpariaethau'r Bil yn cychwyn pan gaiff Cydsyniad y Frenhines.
64. Mae is-adran (4) yn pennu teitl byr y Bil.

Atodlen 1 - Darpariaeth ganlyniadol

65. Mae paragraff 1 yn pennu sut y dylid dehongli cyfeiriadau at ddeddfwriaeth y UE ar neu ar ôl y dyddiad ymadael.

66. Mae paragraff 2 yn anghymhwysu paragraff 2 o Atodlen 8 o Ddeddf 2018 mewn perthynas â deddfwriaeth yr UE a restrir yng nghymal 1(3) ac a ymgorfforir o fewn cyfraith ddomestig gan gymal 1(1).
67. Mae paragraffau 3 - 6 yn ychwanegu at ddiffiniadau yn Neddf Dehongli 1978 a Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, Deddf Dehongli a Deddfwriaeth (yr Alban) 2010 a Deddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954 at ddibenion y Bil hwn.
68. Mae paragraff 7 yn cadarnhau statws cyfraith yr UE a restrir yn y Bil at ddibenion y diwygiadau ym mharagraffau 3-6.
69. Mae paragraff 8 yn pennu nad yw effeithiau paragraffau 3 i 7 yn effeithio ar y termau a enwir ym mharagraff 3 o Ddeddf 2018.

Atodlen 2 - Rheoliadau o dan y Ddeddf hon

70. Mae Atodlen 2 yn manylu ar y gweithdrefnau ar gyfer gwneud rheoliadau a chraffu arnynt.
71. Mae paragraff 1 yn manylu ar y weithdrefn sydd i'w defnyddio gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru a DAERA wrth wneud rheoliadau o dan y Bil hwn.
72. Mae paragraff 2 yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau o dan y weithdrefn gadarnhaol mewn cysylltiad â chywiro diffygion yng nghymalau 3(1)(a) neu 3(3)(a), ac o dan y weithdrefn gadarnhaol mewn cysylltiad â gwneud newidiadau yng nghymalau 3(1)(b), 3(3)(b) neu 3(4).
73. Mae paragraff 3 yn darparu bod rheoliadau a wneir o dan gymal 6 yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.
74. Mae paragraff 4 yn disgrifio'r prosesau ar gyfer (a) yr Ysgrifennydd Gwladol, (b) Gweinidogion yr Alban, (c) Gweinidogion Cymru a (4) DAERA lle caiff rheoliadau o dan gymal 3 eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.
75. Mae paragraff 5 yn disgrifio'r amodau y mae'n rhaid wrth gyfrifo cyfnod o amser mewn cysylltiad â pharagraff 4(a).
76. Mae paragraff 6 yn disgrifio'r amodau y mae'n rhaid wrth gyfrifo cyfnod o amser mewn cysylltiad â pharagraff 4(b) neu (c).
77. Mae paragraff 7 yn disgrifio'r amodau y mae'n rhaid wrth gyfrifo cyfnod o amser mewn cysylltiad â pharagraff 4(d).
78. Mae paragraff 8 yn pennu (a) bod rheoliadau sy'n dod i ben yn unol â darpariaethau paragraff 4 yn parhau'n ddilys, a (b) na fydd dod â rheoliadau i ben yn unol â darpariaethau paragraff 4 yn rhwystro gwneud rheoliadau newydd.

79. Mae paragraff 9 yn nodi'r amodau ar gyfer gwneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon a wneir o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.
80. Mae paragraff 10 yn nodi'r amodau ar gyfer gwneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon a wneir o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.
81. Mae paragraff 11 yn caniatáu gwneud cyfuniad o reoliadau gyda'i gilydd, ac yn pennu y gellid gwneud rheoliadau y mae'n rhaid wrth y weithdrefn penderfyniad negyddol arnynt o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol)

82. Mae Erthygl 137 o'r Cytundeb Ymadael presennol yn darparu na fydd y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, fel y bydd yn gymwys yn y flwyddyn 2020, yn gymwys i'r Deyrnas Unedig ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 (ac eithrio Erthygl 13 (esemptiad cymorth gwladwriaethol). O'r herwydd, byddai angen darpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol er mwyn ailgymhwyso'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol (a deddfwriaeth gysylltiedig yr UE sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol) fel y bo modd gwneud taliadau ac er mwyn i'r cynllun taliadau uniongyrchol allu parhau ar gyfer blwyddyn 2020 y cynllun.
83. Bydd cymryd pwerau o dan Fil y DU yn ateb ymarferol a phragmatig i'r ffaith nad oes gennym y pwerau cyfreithiol sydd eu hangen er mwyn parhau i wneud taliadau uniongyrchol i ffermwyr ym mlwyddyn 2020 y cynllun.
84. Drwy weithredu ar lefel y DU gyfan yn hyn o beth, rydym yn rhagweld y gallem ailgymhwyso, a gwneud yn weithredadwy, lawer o'r drafftio y cytunwyd arno eisoes ar gyfer Diwrnod 1 y deddfwriaeth unioni ar gyfer y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol ar gyfer blwyddyn y cynllun 2020. O'r herwydd, byddai'r broses yn fwy llyfn, yn gynt ac yn fwy clir i ffermwyr a rhanddeiliaid eraill.

Goblygiadau ariannol

85. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol newydd i Lywodraeth Cymru nac i'r Cynulliad oherwydd ein bod yn cymryd y pwerau hyn yn y Bil hwn. Mae angen y Bil er mwyn ailgymhwyso'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, a'i wneud yn weithredadwy, ar gyfer blwyddyn 2020 y cynllun.

Casgliad

86. O ystyried bod angen ymdrin ar fyrder â'r ffaith nad oes gennym y pwerau cyfreithiol sydd eu hangen er mwyn parhau i wneud taliadau uniongyrchol i

ffermwyr ym mlwyddyn 2020 y cynllun, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Lywodraeth y DU.

Lesley Griffiths AC

**Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
(DEFRA).**

Ionawr 2020